YR ATODLEN

Sancsiynau Sifil

# RHAN 3

## Ymgymeriadau Gorfodaeth

### Ymgymeriadau gorfodaeth

**17.**—(1) Caiff y rheoleiddiwr dderbyn ymgymeriad ysgrifenedig (sef "ymgymeriad gorfodaeth") a roddir gan berson mewn achos pan fo gan y rheoleiddiwr seiliau rhesymol dros amau bod y person wedi cyflawni trosedd o dan reoliad 3(1) neu (2).

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae "ymgymeriad gorfodaeth" yn ymgymeriad ysgrifenedig i gymryd y camau hynny a bennir yn yr ymgymeriad o fewn y cyfnod hwnnw a bennir.

### Cynnwys ymgymeriad gorfodaeth

**18.**—(1) Rhaid i ymgymeriad gorfodaeth bennu—

(a) cam gweithredu i sicrhau nad yw'r drosedd yn digwydd eto;

(b) cam gweithredu (gan gynnwys talu swm o arian) er budd unrhyw berson y mae'r drosedd yn effeithio arno; neu

(c) cam gweithredu a fydd yn sicrhau budd amgylcheddol sy'n cyfateb i adfer yr hyn a ddifrodwyd neu a ddinistriwyd gan gyflawni'r drosedd, neu'r hyn sy'n debygol o fod wedi ei ddifrodi neu ei ddinistrio gan gyflawni'r drosedd.

(2) Rhaid iddo bennu o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid cwblhau'r cam gweithredu.

(3) Rhaid iddo gynnwys—

(a) datganiad y gwneir yr ymgymeriad yn unol â'r Atodlen hon;

(b) telerau'r ymgymeriad; ac

(c) gwybodaeth ynghylch sut a phryd yr ystyrir bod y person sy'n rhoi'r ymgymeriad hwnnw wedi cyflawni'r ymgymeriad.

(4) Caniateir amrywio'r ymgymeriad gorfodaeth, neu ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid cwblhau'r cam gweithredu o'i fewn, os yw'r ddau barti yn cytuno i hynny yn ysgrifenedig.

### Derbyn ymgymeriad gorfodaeth

**19.** Os yw'r rheoleiddiwr wedi derbyn ymgymeriad gorfodaeth, yna, oni bai bod y person y derbynnir yr ymgymeriad oddi wrtho wedi methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad neu unrhyw ran ohono—

(a) ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw ar unrhyw adeg o'r drosedd mewn cysylltiad â'r weithred neu anweithred y mae'r ymgymeriad yn ymwneud ag ef; a

(b) ni chaiff y rheoleiddiwr osod cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad stop ar y person hwnnw mewn cysylltiad â'r weithred neu anweithred honno.

### Cyflawni ymgymeriad gorfodaeth

**20.**—(1) Os yw'r rheoleiddiwr wedi ei fodloni y cydymffurfiwyd ag ymgymeriad gorfodaeth, rhaid iddo ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw.

(2) Caiff y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd wedi rhoi'r ymgymeriad ddarparu gwybodaeth sy'n ddigonol i benderfynu y cydymffurfiwyd â'r ymgymeriad.

(3) Caiff y person a roddodd yr ymgymeriad wneud cais ar unrhyw adeg am dystysgrif o'r fath.

(4) Rhaid i'r rheoleiddiwr benderfynu pa un ai i ddyroddi tystysgrif o'r fath, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad i'r ceisydd, o fewn 14 o ddiwrnodau o gael cais o'r fath.

**Apelau yn erbyn penderfyniad i beidio â dyroddi tystysgrif**

**21.** Caiff y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dyroddi tystysgrif ar y seiliau bod y penderfyniad—

(a) yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) yn anghywir mewn cyfraith;

(c) yn annheg neu'n afresymol;

(d) yn anghywir am unrhyw reswm arall.

**Gwybodaeth anghywir, gamarweiniol neu anghyflawn**

**22.**—(1) Mae person sydd wedi rhoi gwybodaeth anghywir, gamarweiniol neu anghyflawn mewn perthynas ag ymgymeriad gorfodaeth i'w ystyried fel pe na bai wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad hwnnw.

(2) Caiff y rheoleiddiwr drwy hysbysiad ysgrifenedig ddirymu tystysgrif a ddyroddwyd o dan baragraff 20 os y'i dyroddwyd ar sail gwybodaeth anghywir, gamarweiniol neu anghyflawn.

**Peidio â chydymffurfio ag ymrwymiad gorfodaeth**

**23.**—(1) Os na chydymffurfir ag ymgymeriad gorfodaeth, caiff y rheoleiddiwr naill ai—

(a) cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio, cosb am beidio â chydymffurfio neu hysbysiad stop; neu

(b) dwyn achos troseddol.

(2) Os yw person wedi cydymffurfio yn rhannol ond nid yn llwyr ag ymgymeriad gorfodaeth, rhaid ystyried y cydymffurfio rhannol hwnnw wrth osod unrhyw sancsiwn troseddol neu sancsiwn arall ar y person.

(3) Caniateir cychwyn achos troseddol am drosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn ddiannod y mae ymgymeriad gorfodaeth yn ymwneud â hi ar unrhyw adeg hyd at chwe mis o'r dyddiad y mae'r rheoleiddiwr yn hysbysu'r person y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r ymgymeriad hwnnw am fethiant y person hwnnw i wneud hynny.